Tŷ'r Cwmnïau
er gwybodaeth

Partneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig Ffurfiant ac Enwau

GBLLP1 CYM

Mai 2009

Fersiwn 17

BERR

Yr Adran Busnes
Menter a Diwygio Rheoleiddio

Mae'r canllaw hwn ar gael mewn ffurfiau eraill gan gynnwys Braille, print mawr a thâp clywedol. Am fanylion pellach gweler ein gwefan – www.companieshouse.gov.uk neu e-bostiwch ein Hadran Ymholiadau ar enquries@companieshouse.gov.uk neu ffoniwch ein Canolfan Gysylltu ar 0303 1234 500.

Cynnwys

Cyflwyniad

1. Partneriaethau atebolrwydd cyfyngedig newydd

2. Dewis enw i bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig

3. Newid enw partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig

4. Geiriau ac ymadroddion sensitif

5. Cyfarwyddyd i newid enw partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig

6. Cyhoeddi enw partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig, a'r manylion sydd i'w dangos ar ei deunydd ysgrifennu

7. Y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig newydd – edrych ymlaen

8. Gwybodaeth bellach

9. Atodiadau

Canllaw yn unig yw hyn a dylid ei ddarllen ar y cyd â'r ddeddfwriaeth berthnasol.

Cyflwyniad

Mae'r canllaw hwn yn sôn am y gofynion ar gyfer corffori partneriaethau atebolrwydd cyfyngedig (PAC). Mae'n gymwys i bartneriaethau atebolrwydd cyfyngedig wedi eu ffurfio a'u cofrestru yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Ymdrinnir â'r dogfennau ffurfio, aelodau partneriaethau atebolrwydd cyfyngedig, a'r rheolaeth sy'n gymwys i'r ffordd y defnyddir rhai enwau ar bartneriaethau atebolrwydd cyfyngedig. Mae hyn yn cynnwys:

- y rheolau a'r cyfyngiadau o ran dewis enw i bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig, a hynny wrth ffurfio partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig felly ac wrth newid ei henw;

- sut i newid enw partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig;

- pa bryd na fydd Tŷ'r Cwmnïau yn cofrestru enw ar bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig a pha bryd y bydd angen cyfiawnhau defnyddio geiriau neu ymadroddion sensitif neu angen cymeradwyaeth flaenorol gan awdurdod cydnabyddedig; a

- pha bryd y gallwch chi wrthwynebu enw arbennig ar bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig, a hefyd beth i'w wneud os gwrthwynebwyd enw'ch partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig a'ch bod yn cael eich cyfarwyddo gan yr Ysgrifennydd Gwladol i newid yr enw.

Rhaid i bob partneriaeth gorfforedig ddatgelu gwybodaeth arbennig i Dŷ'r Cwmnïau er mwyn y cofnod cyhoeddus, ac i'r bobl y deliant â nhw. Mae'r canllaw hwn yn dweud wrthych chi:

- ble mae'n rhaid ichi ddangos enw'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig a pha wybodaeth y mae'n rhaid iddi ymddangos ar ddeunydd ysgrifennu'r bartneriaeth; a

- pha bryd y mae'n rhaid rhoi gwybod i Dŷ'r Cwmnïau am newidiadau i sefyllfa a manylion y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig.

Dim ond fel arweiniad i'r rhwymedigaethau parhaol hyn y bwriedir y canllaw yma. Sonnir yn y testun am gyhoeddiadau eraill yn y gyfres hon: mae'r rheiny'n ymdrin yn fanylach â phynciau unigol.

Fe welwch chi'r gyfraith berthnasol yn Neddf Partneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig 2000, ac yn Rheoliadau Partneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig 2001 sy'n cymhwyso rhannau o Ddeddf Cwmnïau 1985 (fel y'i diwygiwyd ym 1989 ac wedyn) at bartneriaethau atebolrwydd cyfyngedig. Wrth gyfeirio at 'y rheoliadau' yn y llyfryn hwn, golygwn Reoliadau Partneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig 2001.

Mae sefydlu partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig yn dod â llawer rhwymedigaeth. Gall fod yn werth ichi geisio cyngor cyfreithiwr neu gyfrifydd i gael gweld ai partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig yw'r ffordd orau ichi redeg eich busnes.

Pennod 1
Partneriaethau atebolrwydd cyfyngedig newydd

1. Beth yw partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig?

Mae partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig yn fath newydd o endid busnes cyfreithiol ac iddo atebolrwydd sydd wedi ei gyfyngu.

2. Beth yw'r gwahaniaeth rhwng partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig a chwmni cyfyngedig?

Y prif wahaniaeth yw bod partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig â hyblygrwydd trefniadol partneriaeth a'i bod yn cael ei threthu fel partneriaeth. O ran agweddau eraill, mae'n debyg iawn i gwmni.

3. Pwy gaiff ffurfio partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig?

Yn gyffredinol, mae'r Ddeddf yn caniatáu i ddau neu ragor o bersonau sydd â chydberthynas at ddibenion dilyn busnes cyfreithlon gyda golwg ar wneud elw, ffurfio partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig drwy danysgrifio i'w dogfen gorffori – Ffurflen LLP2. (O dan y gyfraith, mae 'person' yn cynnwys unigolion a chwmnïau.) Ond nid yw partneriaethau atebolrwydd cyfyngedig ar gael i bob gweithgarwch, fel gweithgareddau dielw.

4. Sut dylwn i ffurfio partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig?

Bydd angen ichi anfon Dogfen Gorffori Ffurflen LLP2, gyda'r ffi gofrestru (gweler cwestiwn 11 isod), at y Cofrestrydd Cwmnïau.

5. Beth yw Dogfen Gorffori (Ffurflen LLP2)?

Mae'r ffurflen hon yn nodi:

- enw'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig;
- lleoliad swyddfa gofrestredig y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig (Cymru, Lloegr neu'r Alban);
- cyfeiriad y swyddfa gofrestredig;
- enw, cyfeiriad llawn a dyddiad geni pob aelod; a
- pha rai o'r bobl hyn sydd i fod yn aelodau dynodedig, neu fod pob aelod yn aelod dynodedig.

Mae Ffurflen LLP2 yn cynnwys datganiad cydymffurfio y mae'n rhaid i gyfreithiwr neu aelod arfaethedig ei lofnodi. Rhaid i bwy bynnag sy'n llofnodi'r datganiad nodi ym mha rinwedd y mae'n llofnodi'r ffurflen. Rhaid i bob aelod a phob aelod dynodedig lofnodi a dyddio'r ddogfen gorffori i gadarnhau ei barodrwydd/pharodrwydd i weithredu.

6. Beth yw swyddfa gofrestredig?

Dyma gyfeiriad y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig yr anfonir llythyrau a nodiadau atgoffa Tŷ'r Cwmnïau iddo. Gall y swyddfa gofrestredig fod unrhyw le yng Nghymru a Lloegr (neu'r Alban os yw'ch partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig wedi ei chofrestru yno). Rhaid i'r swyddfa gofrestredig bob amser fod yn gyfeiriad effeithiol ar gyfer cyflwyno dogfennau i'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig, ac i osgoi unrhyw oedi mae'n bwysig bod pob gohebiaeth a anfonir i'r cyfeiriad hwn yn cael sylw prydlon. Os bydd partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig yn newid cyfeiriad ei swyddfa gofrestredig ar ôl corffori, rhaid rhoi gwybod i Dŷ'r Cwmnïau am y cyfeiriad newydd ar Ffurflen LLP287.

Cyfeiriadau dilys
Bydd Tŷ'r Cwmnïau yn defnyddio ffeil gyfeiriadau Swyddfa'r Post i ddilysu cyfeiriadau, felly i osgoi unrhyw oedi gwnewch yn siŵr fod y cyfeiriad a fwriedir ar gyfer y swyddfa gofrestredig wedi ei gydnabod gan Swyddfa'r Post, a gofalwch bob amser nodi'r cod post cywir ar ffurflenni a gyflwynir i gael eu cofrestru.

7. Beth yw nifer isaf yr aelodau dynodedig sydd angen ar bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig?

Rhaid i bob partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig fod bob amser ag o leiaf dau aelod dynodedig wedi eu penodi'r ffurfiol. Os ceir llai na dau aelod dynodedig, yna ystyrir bod pob aelod yn aelod dynodedig. (Gall y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig fod wedi penderfynu y bydd pob aelod yn ddynodedig neu mai rhai aelodau yn unig fydd yn ddynodedig – gweler cwestiwn 5 uchod).

Wedi corffori, mae'n rhaid ichi ddweud wrth Dŷ'r Cwmnïau am:

- benodi aelod neu aelod dynodedig newydd – defnyddiwch Ffurflen LLP288a;
- aelod neu aelod dynodedig sy'n rhoi heibio i weithredu o dan y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig – defnyddiwch Ffurflen LLP288b;
- newidiadau i enw neu gyfeiriad unrhyw aelod neu aelod dynodedig neu i unrhyw rai o'r manylion eraill a gofrestrwyd yn wreiddiol ar Ffurflen LLP2 – defnyddiwch Ffurflen LLP288c;

- newidiadau i statws unrhyw aelod (o aelod i aelod dynodedig neu'r ffordd arall) – defnyddiwch Ffurflen LLP288c;

- gwrthdroi penderfyniad mai pob aelod neu aelodau arbennig yn unig fydd yn aelodau dynodedig – defnyddiwch Ffurflen LLP8. (Gellir hefyd fynnu Ffurflenni LLP288c sy'n newid statws pob aelod).

8. Beth yw'r gwahaniaeth rhwng aelod ac aelod dynodedig?

Gyda chydsyniad yr aelodau eraill, gall aelod fynd yn aelod dynodedig unrhyw adeg. Mae gan aelodau dynodedig yr un hawliau a dyletswyddau tuag at y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig ag unrhyw aelod arall. Llywodraethir yr hawliau a'r dyletswyddau cilyddol hyn gan gytundeb y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig a chan y gyfraith yn gyffredinol. Ond mae'r gyfraith hefyd yn gosod cyfrifoldebau ychwanegol ar aelodau dynodedig. Yn fwyaf arbennig, mae aelodau dynodedig yn gyfrifol am:

- benodi archwilydd ariannol (os oes angen un);

- llofnodi'r cyfrifon ar ran yr aelodau;

- cyflwyno'r cyfrifon i'r Cofrestrydd;

- rhoi gwybod i'r Cofrestrydd am unrhyw newidiadau i'r aelodaeth neu newid o ran cyfeiriad y swyddfa gofrestredig neu enw'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig;

- paratoi, llofnodi a chyflwyno i'r Cofrestrydd adroddiad blynyddol (Ffurflen LLP363); a

- gweithredu ar ran y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig os caiff ei dirwyn i ben a'i diddymu.

Mae aelodau dynodedig hefyd yn atebol o dan y gyfraith am unrhyw fethiant i fodloni'r cyfrifoldebau cyfreithiol hyn.

9. Beth sy'n digwydd i'r dogfennau a anfonir at y Cofrestrydd?

Mae pob dogfen yng nghyswllt ffurfio partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig yn agored i archwiliadau arbennig, gan gynnwys gwirio darpar-aelodau yn ôl y cofrestri sy'n nodi cyfarwyddwyr ac aelodau a gafodd eu gwahardd.

Wedyn, bydd y Cofrestrydd yn cadw'r dogfennau a gyflwynwyd iddo ac yn trefnu iddynt fod ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd.

10. Alla i ddewis unrhyw enw fynna i i'm partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig?

Na allwch. Mae rhai cyfyngiadau ar eich dewis. Mae pennod 2 o'r llyfryn hwn yn egluro sut y gall y cyfyngiadau hynny effeithio ar eich dewis.

Gwirio enwau partneriaethau atebolrwydd cyfyngedig

Mae'n bwysig gwneud yn siŵr fod yr enw sydd eisiau yn dderbyniol gan Dŷ'r Cwmnïau cyn cwblhau'r ddogfen gorffori (Ffurflen LLP2).

Yn gryno, y cyfyngiadau yw:

- na chewch gofrestru'r un enw â phartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig neu gwmni arall;
- bod cyfyngu ar ddefnyddio geiriau arbennig; ac
- na chaniateir geiriau sy'n debygol o beri tramgwydd.

Mae'n bwysig hefyd i edrych a yw'ch dewis enw yn debyg i unrhyw enwau eraill sydd eisoes ar y gofrestr. Os yw'r Rhyngrwyd wrth law gennych, gallwch weld y gofrestr enwau ar ein gwefan yn www.companieshouse.gov.uk. Os yw'ch dewis enw yn rhy debyg i enw arall, gellid ei wrthwynebu o fewn 12 mis i gorffori'ch partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig ac fe allech chi gael eich cyfarwyddo gan yr Ysgrifennydd Gwladol i newid enw'r bartneriaeth.

Ni ellir neilltuo enwau ac ni chaiff ceisiadau ffurfio mo'u prosesu'n gaeth yn nhrefn amser na dyddiadau derbyn. Go brin y cawn fwy nag un cais am gofrestru'r un enw, ond os digwydd hynny dim ond un gaiff ei gofrestru. Fe gâi'r ail un ei wrthod oherwydd y byddai'r enw hwnnw eisoes ar y mynegai enwau. Ni ellir gwarantu pa gais gaiff ei brosesu gyntaf. At ei gilydd, bydd ceisiadau corffori cwmni a gyflwynir yn electronig yn cael eu prosesu ynghynt na cheisiadau eraill ar bapur, gan gynnwys ceisiadau PAC.

11. Faint mae Tŷ'r Cwmnïau yn ei godi am gorffori partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig?

Y ffi gofrestru o dan y gwasanaeth safonol yw £20. Ffi'r gwasanaeth premiwm yw £50. Dylid gwneud sieciau'n daladwy i "Tŷ'r Cwmnïau".

Os dewiswch y gwasanaeth premiwm, fe wnawn ein gorau i gorffori'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig yr un diwrnod â derbyn y dogfennau ffurfio, cyhyd â'ch bod yn eu cyflwyno inni, wedi eu cwblhau'n gywir ac ar ddiwyg derbyniol, cyn 3pm. Os byddwn am unrhyw reswm yn methu rhoi ichi wasanaeth yr un diwrnod, byddwn yn ad-dalu gwahaniaeth y gost rhwng y gwasanaeth safonol a'r gwasanaeth premiwm.

Os postiwch eich cais am wasanaeth yr un diwrnod, fe wnawn bob ymdrech i gofrestru yr un diwrnod ag y bydd yn dod i law. Os yw'ch cais yn un taer, hwyrach y byddwch am ystyried a fyddai'n ddoeth defnyddio gwasanaeth dosbarthu arbennig y Post Brenhinol.

Ceisiadau yr un diwrnod

Gyda cheisiadau a gaiff eu postio, rhai a anfonir drwy negesydd a cheisiadau seliedig eraill am wasanaeth yr un diwrnod, rhaid marcio'n glir ar yr amlen 'er sylw'r Tîm Partneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig' a 'Corffori yr un Diwrnod'.

12. Ble alla i gael ffurflen i gorffori partneriaeth?

Mae Ffurflen LLP2 ar gael ar ein gwefan www.companieshouse.gov.uk neu gan swyddfeydd Tŷ'r Cwmnïau fel ar ddiwedd y llyfryn hwn. Gellir hefyd gael y ffurflen gan ddogfenwyr cyfreithiol, cyfrifwyr, cyfreithwyr neu asiantiaid ffurfio. Gwelir enwau a chyfeiriadau'r rhain mewn llyfrau ffôn ar gyfer busnesau.

13. Alla i ddelio'n uniongyrchol â Thŷ'r Cwmnïau i ffurfio fy mhartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig?

Gallwch. Ond, er y bydd ein staff yn falch o roi ichi gyfarwyddyd ynglŷn â materion cyffredinol (megis llenwi ffurflenni neu gyngor ynghylch enwau partneriaethau atebolrwydd cyfyngedig), ni allant eich cynghori ai partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig yw'r cyfrwng gorau i'ch busnes.

Os ydych yn ansicr ynglŷn ag unrhyw agwedd ar ffurfio partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig, byddwch cystal â cheisio cyngor proffesiynol eich cyfreithiwr, eich cyfrifydd neu'ch asiant ffurfio.

Pennod 2
Dewis enw i bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig

1. Alla i ddewis unrhyw enw fynna i i'm partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig?

Na allwch. Gall sawl rheoliad effeithio ar eich dewis. Er enghraifft, rhaid i enw pob partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig ddiweddu yn y geiriau 'Partneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig' neu'r Saesneg cyfatebol 'Limited Liability Partnership' neu eu talfyriadau.

2. A ellid gwrthod yr enw ddewisais i?

Gellid:

- os yw 'yr un fath' ag enw sydd eisoes ar y mynegai – gweler cwestiwn 3 isod;
- os yw'n cynnwys y geiriau 'partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig' unrhyw le arall ond ar ddiwedd yr enw. Mae hyn yr un mor wir am dalfyriadau neu fersiwn Saesneg y geiriau;

- os yw'n sarhaus;
- os byddai ei ddefnyddio'n dramgwydd troseddol;
- os yw'n cynnwys 'SE' (neu'r talfyriad SE rhwng cromfachau neu gydag atalnodi arall cyn neu ar ôl y talfyriad). Am ragor o wybodaeth, gweler ein llyfryn The European Company: Societas Europaea (SE).

Yn ychwanegol, mae eisiau cymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Gwladol i rai enwau cyn bod modd eu cofrestru. Ymhlith y rhain mae enwau sy'n cynnwys geiriau a bennwyd o dan y rheoliadau (gweler cwestiwn 4) ac enwau sy'n awgrymu cysylltiad â llywodraeth ganolog neu leol.

Os osgoir y cyfyngiadau hyn, cewch fel arfer ddefnyddio'r enw a ddewiswyd gennych.

Gwnewch yn siŵr fod yr enw yr ydych chi am ei ddefnyddio yn dderbyniol cyn cwblhau'ch dogfen gorffori – Ffurflen LLP2 - neu cyn llenwi Ffurflen LLP3 i newid enw partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig. Os byddwch yn amau, ffoniwch:

Ar gyfer partneriaethau atebolrwydd cyfyngedig wedi eu cofrestru yng Nghymru a Lloegr	**Ar gyfer partneriaethau atebolrwydd cyfyngedig wedi eu cofrestru yn yr Alban**
0303 1234 500	0131 535 5831 **neu** 0131 535 5832

3. Beth yw ystyr 'yr un fath'?

Wrth benderfynu a yw enw 'yr un fath' ag enw arall, bydd y Cofrestrydd yn anwybyddu atalnodi, statws y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig, a'r 'y/yr' ar ddechrau'r enw. Gellir derbyn enw sy'n swnio yr un fath ag un sydd eisoes ar y Mynegai Enwau Cwmnïau a Phartneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig os yw'r ddau enw wedi eu sillafu'n wahanol.

Er enghraifft, os yw'r enw 'Diacen Cyfyngedig' wedi ei gofrestru'n barod, yna fe wrthodid y canlynol:

- Diacen Partneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig (neu PAC)
- D ac N Partneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig (neu PAC)
- D & N Partneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig (neu PAC)

Er y gall enw partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig fod yn ddigon gwahanol i enw sydd eisoes ar y Mynegai i ganiatáu ei gofrestru, hwyrach na fydd hynny'n ddigon i osgoi ystyried yr enwau'n 'rhy debyg' i'w gilydd os cyflwynir gwrthwynebiad ar ôl corffori'r ail bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig neu gwmni. Mewn enghreifftiau o'r fath, gellid cyfarwyddo'ch partneriaeth i newid ei henw – gweler pennod 5.

Dylech fod yn ymwybodol, os mabwysiadwch enw sy'n camarwain y cyhoedd i gredu bod eich busnes chi yn dilyn yr un gweithgarwch â busnes arall – er enghraifft, masnachu'n siop adrannol o dan yr enw 'Harrods' – yna fe allai'r person y gwnaethoch effeithio ar ei fusnes/busnes ddwyn achos yn eich erbyn am 'ymhonni'. Nid yw cofrestru enw gyda Thŷ'r Cwmnïau yn warant eich bod yn ddiogel rhag achos cyfreithiol o'r fath.

Yn ychwanegol, os oes cofrestriad nod masnach neu gais am nod neu gais sy'n cynnwys nod sydd yr un fath ag enw sydd wedi ei gofrestru neu'n debyg i un, gallwch wynebu achos cyfreithiol am dor-nod masnach. Fe'ch cynghorir, felly, i ymgynghori â thwrnai nodau masnach neu gyfreithiwr cyn defnyddio'r enw. I ddod o hyd i dwrnai nodau masnach, cysylltwch â'r Sefydliad Twrneiod Nodau Masnach ar 020 8686 2052 neu ymwelwch ag www.itma.org.uk. I ddod o hyd i gyfreithiwr, cysylltwch â Chymdeithas y Gyfraith ar 0870 606 6575 neu ymwelwch ag www.lawsociety.org.uk

Gallwch hefyd wirio'r Gofrestr Nodau Masnach yn y Swyddfa Eiddo Deallusol y D.G. cyn cofrestru enw yn Nhŷ'r Cwmnïau. Hyd yn oed os na chwyd Tŷ'r Cwmnïau wrthwynebiad "rhy debyg" i'ch enw, nid yw hynny'n rhoi ichi amddiffyniad rhag unrhyw honiad dilynol ynglŷn â thor-nod masnach neu ymhonni. Eich cyfrifoldeb chi yw cadarnhau bod yr enw'n rhydd i'w ddefnyddio.

Am gyngor pellach, gan gynnwys sut i chwilio'r Gofrestr Nodau Masnach, cysylltwch â Chofrestrfa Nodau Masnach y Swyddfa Eiddo Deallusol y D.G. ar:

E-bost: enquiries@ipo.gov.uk

Gwefan: www.ipo.gov.uk

Teleffon: 08459 500 505

Newidiodd y Swyddfa Patentau ei henw i Swyddfa Eiddo Deallusol y D.G. (UK-IPO) ar 2 Ebrill 2007.

Mae cofrestru enw'n atal partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig arall rhag bod â'r un enw, ond nid yw'n atal defnyddio'r enw fel enw masnachu neu enw busnes, ac eithrio o dan yr amgylchiadau a ddisgrifiwyd uchod.

4. Pa enwau sydd angen cymeradwyaeth?

Yr enwau sydd angen cymeradwyaeth yw'r rhai sy'n cynnwys geiriau neu ymadroddion a nodir o dan reoliadau statudol ac enwau sy'n rhoi'r argraff bod y bartneriaeth ateblorwydd cyfyngedig yn gysylltiedig â Llywodraeth Ei Mawrhydi neu ag awdurdod lleol. Gwelir rhestri llawn o'r geiriau 'sensitif' yn Atodiadau A, B ac C, a rhoir gwybodaeth bellach am eiriau sensitif ym mhennod 4.

Enwau sy'n awgrymu gweithgarwch bancio

Yn sgil dirymu Deddf Bancio 1987, nid oes eisiau cymeradwyaeth mwyach ar gyfer enwau cwmni sy'n cynnwys bank, banker, banking neu deposit. Ond mae defnyddio geiriau sy'n awgrymu gweithgarwch bancio yn cyfleu'r syniad bod y person sy'n defnyddio'r enw yn dilyn busnes bancio a chan hynny yn derbyn adneuon – gweithgarwch sydd wedi ei reoleiddio o dan Ddeddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol 2000. Felly, byddai angen yn arferol i'r person fod yn 'berson awdurdodedig' neu fod wedi ei (h) eithrio o dan y Ddeddf.

Gall defnydd enw bancio gan rywun nad yw wedi ei (h) awdurdodi na'i (h) eithrio o dan y Ddeddf fod yn arwyddocaol o ran penderfynu a gyflawnwyd tramgwydd o dan adran 24 o'r Ddeddf. Fodd bynnag, mae'n bosibl y gallai'r person brofi nad yw'r ffordd y mae'n dilyn y busnes yn golygu bod y rhai sy'n delio ag ef/â hi yn cymryd ei bod/fod yn berson awdurdodedig.

Ni ddylid cymryd yn ganiataol bod penderfyniad gennym ni i gofrestru enw bancio penodol yn golygu na fyddai ei ddefnyddio o dan amgylchiadau arbennig yn groes i adran 24. Os ydych yn ansicr, dylech geisio cyngor cyfreithiol annibynnol.

5. Beth os oes eisiau cymeradwyaeth i'r enw ddewisais i?

Os dewiswch chi enw partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig sydd angen cymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Menter a Diwygio Rheoleiddio cyn ei ddefnyddio, cysylltwch â'r Tîm Partneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig yn Nhŷ'r Cwmnïau, Caerdydd neu Gaeredin yn ôl sy'n briodol, cyn ichi ymrwymo, a gofyn am wybodaeth ynghylch y rheolau sy'n llywio defnyddio'r gair a ddewiswyd gennych.

- Os dewiswch chi enw sy'n cynnwys unrhyw un o'r geiriau a restrir yn Atodiad A, mae'n debyg y gofynnir ichi gyflenwi gwybodaeth ategol cyn inni gofrestru'r enw. Dylech ysgrifennu, gan amgáu gwybodaeth yn ategu'ch cais, at yr Ysgrifennydd Gwladol yn Nhŷ'r Cwmnïau yng Nghaerdydd (i bartneriaethau atebolrwydd cyfyngedig Cymreig neu Seisnig) neu Gaeredin (i bartneriaethau atebolrwydd cyfyngedig Albanaidd). Gwelir y ddau gyfeiriad yng nghefn y llyfryn hwn.

- Os yw'r enw a ddewiswyd gennych yn cynnwys unrhyw un o'r geiriau a restrir yn Atodiad B, yna bydd angen ichi ysgrifennu at y 'corff perthnasol' i ofyn a oes ganddynt wrthwynebiad (ac os oes, pam) i ddefnyddio'r gair neu'r ymadrodd yn enw'ch partneriaeth atebolrwydd

cyfyngedig. Wrth ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol yn Nhŷ'r Cwmnïau, Caerdydd neu Gaeredin, i geisio cymeradwyaeth i'r enw, bydd rhaid ichi amgáu copi o unrhyw ateb a gawsoch gan y 'corff perthnasol'.

- Mae deddfwriaeth arall yn rhychwantu defnyddio rhai geiriau ac ymadroddion a gallai eu camarfer yn enwau partneriaethau atebolrwydd cyfyngedig fod yn dramgwydd troseddol. Rhestrir y rhai sy'n wybyddus i Dŷ'r Cwmnïau yn Atodiad C. Os hoffech chi gynnwys un o'r geiriau neu ymadroddion hyn yn enw'ch partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig, yna dylech gysylltu â'r awdurdod rheoleiddio perthnasol neu geisio cyngor gennym ni.

- Os yw'r enw a ddewiswyd gennych yn rhoi'r argraff bod eich partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig yn gysylltiedig â Llywodraeth Ei Mawrhydi neu ag awdurdod lleol, yna bydd arnoch chi angen cymeradwyaeth ysgrifenedig yr Ysgrifennydd Gwladol cyn bod modd cofrestru'r enw. Ysgrifennwch at yr Ysgrifennydd Gwladol yn Nhŷ'r Cwmnïau, Caerdydd neu Gaeredin yn ôl sy'n briodol, gan roi cymaint o fanylion ag y gallwch i ategu'ch cais. Fel arfer, dim ond lle gallwch chi ddangos bod cyswllt go iawn yn bodoli a lle bo'r corff llywodraeth perthnasol yn cefnogi'r cais y caiff enwau o'r fath eu cymeradwyo. Gweler pennod 4.

6. Sut dylwn i gofrestru enw fy mhartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig?

Os nad yw'r enw a ddewiswyd gennych eisoes ar y Mynegai Enwau Cwmnïau a Phartneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig ac nad yw yn un sydd eisiau cymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Gwladol, anfonwch eich dogfen gorffori (neu Ffurflen LLP3 os yw partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig presennol yn newid ei henw) at:

- y Tîm Partneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig, Caerdydd, ar gyfer partneriaethau atebolrwydd cyfyngedig sydd wedi eu cofrestru yng Nghymru a Lloegr; neu at

- Gofrestrydd Cwmnïau'r Alban ar gyfer partneriaethau atebolrwydd cyfyngedig sydd wedi cofrestru yn yr Alban.

Os yw'ch dogfennau'n gywir, caiff enw'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig ei gofrestru ac fe roir tystysgrif gorffori.

Mae rhagor o wybodaeth am gorffori partneriaethau atebolrwydd cyfyngedig i'w chael ym mhennod 1 o'r llyfryn hwn. Rhoir gwybodaeth am newid enw partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig ym mhennod 3.

Pennod 3
Newid enw partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig

1. Oes unrhyw gyfyngiadau ar yr enw newydd y caiff partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig ei ddewis?

Oes. Mae'r rhain yr un fath â'r cyfyngiadau sy'n gymwys i bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig newydd sy'n gwneud cais am gofrestriad. Felly, cyn penderfynu ar enw newydd i'ch partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig, darllenwch pennod 2. Os dewiswch chi enw annerbyniol, ni fyddwn yn ei gofrestru.

Os cofrestrir enw sy'n rhy debyg i un sydd eisoes ar y mynegai a bod gwrthwynebiad yn cael ei wneud, yna gall yr Ysgrifennydd Gwladol gyfarwyddo'ch partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig i newid ei henw. Am wybodaeth ynghylch pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol, gweler pennod 5.

2. Sut newidir yr enw?

Rhaid i'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig lenwi Ffurflen LLP3. Wedyn, rhaid i'r ffurflen gael ei llofnodi gan aelod dynodedig a'i hanfon at y Cofrestrydd, ynghyd â'r ffi (gweler isod). Os bydd popeth yn iawn, aiff Tŷ'r Cwmnïau ymlaen i brosesu'r ffurflen a rhoi Tystysgrif Corffori wrth Newid Enw. Ni newidir enw'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig nes rhoi'r dystysgrif newydd. Fel arfer, fe gaiff y newid enw ei brosesu o fewn pum diwrnod gwaith i dderbyn y dogfennau yn Nhŷ'r Cwmnïau. Cynigiwn hefyd wasanaeth premiwm cofrestru yr un diwrnod yn ein swyddfeydd yng Nghaerdydd a Chaeredin, yn ogystal â thrwy'n Canolfan Gwybodaeth yn Llundain.

3. Faint mae Tŷ'r Cwmnïau yn ei godi am newid enw?

Y ffi gofrestru o dan y gwasanaeth safonol yw £10. Ffi'r gwasanaeth premiwm yw £50. Dylid gwneud sieciau'n daladwy i "Tŷ'r Cwmnïau".

Os dewiswch y gwasanaeth premiwm, fe wnawn ein gorau i gofrestru'r newid enw yr un diwrnod â derbyn Ffurflen LLP3, cyhyd â'ch bod yn ei chyflwyno inni, wedi ei chwblhau'n gywir ac ar ddiwyg derbyniol, cyn 3pm. Os byddwn am unrhyw reswm yn methu rhoi ichi wasanaeth yr un diwrnod, byddwn yn ad-dalu gwahaniaeth y gost rhwng y gwasanaeth safonol a'r gwasanaeth premiwm.

Os postiwch eich cais am wasanaeth yr un diwrnod, fe wnawn bob ymdrech i gofrestru'r newid enw yr un diwrnod ag y bydd y cais yn dod i law. Os yw'ch cais yn un taer, hwyrach y byddwch am ystyried a fyddai'n ddoeth defnyddio gwasanaeth dosbarthu arbennig y Post Brenhinol.

Ceisiadau yr un diwrnod

Gyda cheisiadau a gaiff eu postio, rhai a anfonir drwy negesydd a cheisiadau seliedig eraill am wasanaeth yr un diwrnod, rhaid marcio'n glir ar yr amlen 'er sylw'r Tîm Partneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig' a 'Newid enw yr un diwrnod'.

Pennod 4
Geiriau ac ymadroddion sensitif

1. Beth yw 'geiriau ac ymadroddion sensitif'?

Mae'r rhain yn eiriau ac ymadroddion a all, o'u defnyddio yn enw partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig, awgrymu blaenoriaeth fusnes, statws neilltuol neu swyddogaeth benodol. Am y rheswm hwn, cawsant eu pennu o dan y rheoliadau fel rhai sy'n gofyn cymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Gwladol. Y nod yw sicrhau bod cyfiawnhad dros ddefnyddio'r gair fel na chaiff y cyhoedd mo'i gamarwain gan yr enw. Ni roddir caniatâd oni bai fod yr wybodaeth a gyflwynir gennych yn dangos bod y bartneriaeth yn cwrdd â'r amodau perthnasol adeg cofrestru neu'n fuan ar ôl hynny Gweithredwn ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol wrth ddelio â cheisiadau am gymeradwyo geiriau ac ymadroddion o'r fath.

Mae cymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Gwladol wedi ei chyfyngu i ddefnydd geiriau neu ymadroddion arbennig yn enw'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig. Nid yw cymeradwyaeth yn awgrymu cymeradwyo nodau ac amcanion y bartneriaeth.

Mae'r bennod hon yn rhoi canllawiau i'r amodau y bydd angen i'ch partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig eu bodloni os dymunwch chi ddefnyddio un o'r geiriau a restrir yn Atodiad A.

2. Pa fath o eiriau ac ymadroddion sy'n sensitif?

Mae'r geiriau canlynol yn awgrymu blaenoriaeth genedlaethol neu ryngwladol:

> **British** – bydd cymeradwyaeth i'r gair hwn yn enw'ch partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig yn dibynnu ar sut y caiff ei ddefnyddio.. Byddai angen ichi ddangos bod y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig yn amlwg yn ei faes drwy ddarparu tystiolaeth ategol gan ffynhonnell annibynnol megis adran o'r Llywodraeth neu gymdeithas fasnach. Os yw'r gair 'British' wedi ei oleddfu gan eiriau nad ydynt yn disgrifio gweithgarwch neu gynnyrch, er enghraifft drwy ddefnyddio gair 'gwneud', yna ni fydd tystiolaeth o flaenoriaeth o angenrheidrwydd yn hanfodol. Ond byddai disgwyl ichi ddangos bod eich partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig yn un sylweddol o ran ei weithgarwch neu ei gynnyrch a'i fod yn amlwg yn ei faes ei hun.

England, English, Scotland, Scottish, Wales, Welsh, Ireland neu **Irish** – os dymunwch chi ddefnyddio'r geiriau hyn o flaen enw'ch partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig, mae'r rheolau'n debyg i'r rhai ar gyfer 'British'. Fel arfer, fe gewch gymeradwyaeth i ddefnyddio unrhyw un o'r geiriau hyn ar ôl yr enw os dangoswch fod prif leoliad busnes y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig yn y wlad dan sylw. Os dymunwch ddefnyddio un o'r geiriau hyn am ei fod yn gyfenw, fe roir cymeradwyaeth ichi fel arfer ar yr amod bod enw'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig yn cynnwys enwau cyntaf neu flaenlythrennau.

European – ni chymeradwyir enwau sy'n cynnwys y gair hwn os awgrymant, yn ddigyfiawnhad, gyswllt â chyrff swyddogol Undeb Ewrop. Os oes cyswllt go iawn â chorff swyddogol, fe ellir caniatáu'r enw lle bo'r corff perthnasol yn cefnogi'r cais.

Great Britain neu **United Kingdom** – os dymunwch chi ddefnyddio'r ymadroddion hyn o flaen yr enw, neu ddefnyddio 'of Great Britain' neu 'of the United Kingdom' ar ei ôl, yna mae'r meini prawf yr un fath â'r rhai ar gyfer 'British'. Os defnyddir y geiriau ar ôl yr enw, cânt eu caniatáu fel arfer yn ddidrafferth. Nid oes eisiau cymeradwyaeth i ddefnyddio'r blaenlythrennau 'GB' neu 'UK' yn enw'ch partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig.

International – os dymunwch ddefnyddio'r gair hwn o flaen yr enw, bydd angen ichi ddangos bod masnachu tramor yn cyfrif am ran helaeth o weithgareddau'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig. Os dymunwch ei ddefnyddio ar ei ôl, yna fe roir cymeradwyaeth fel arfer ar yr amod y gallwch chi ddangos bod y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig yn gweithredu mewn dwy neu ragor o wledydd tramor.

National – mae'r meini prawf ar gyfer y gair hwn yr un fath ag ar gyfer 'British'.

Mae'r geiriau canlynol yn awgrymu blaenoriaeth fusnes neu statws cynrychioliadol neu awdurdodol:

authority, board neu **council** – os dymunwch chi ddefnyddio unrhyw un o'r geiriau hyn, dylech geisio cyngor gennym ni. Os yw'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig i gael ei chofrestru yn yr Alban, cysylltwch â Thŷ'r Cwmnïau yng Nghaeredin.

institute neu **institution** – dim ond i'r cyrff hynny sy'n gwneud gwaith ymchwil ar y lefel uchaf neu i gyrff proffesiynol o'r rheng flaen y rhoir cymeradwyaeth i ddefnyddio'r geiriau hyn fel arfer. Bydd eisiau ichi ddangos inni fod angen y sefydliad a arfaethir a bod ganddo reoliadau priodol neu safonau archwilio. Bydd eisiau ichi sicrhau tystiolaeth o gefnogaeth cyrff cynrychioliadol ac annibynnol eraill.

Mae'r geiriau canlynol yn awgrymu amcanion neu swyddogaethau penodol:

charter neu **chartered** – gwrthodir enwau sy'n cynnwys y geiriau hyn os rhoddant yr argraff, yn ddigyfiawnhad, fod gan y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig Siarter Frenhinol. Os defnyddir y geiriau i ddisgrifio proffesiwn, fe geisiwn gyngor y corff llywodraethu priodol cyn ystyried p'un ai i roi cymeradwyaeth.

chemist neu **chemistry** – os dymunwch chi ddefnyddio'r geiriau hyn, dylech geisio cyngor Tŷ'r Cwmnïau yng Nghaerdydd. Os yw'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig i gael ei chofrestru yn yr Alban, cysylltwch â Thŷ'r Cwmnïau yng Nghaeredin.

group - os yw defnyddio'r gair hwn yn awgrymu sawl partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig o dan un berchnogaeth gorfforaethol, yna bydd angen ichi ddarparu tystiolaeth o'r cyd-gymdeithasu â dau neu ragor o bartneriaethau Prydeinig neu dramor. Os yw'r enw'n dangos yn glir fod y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig i hybu buddiannau grŵp o unigolion, yna fe gaiff yr enw ei gymeradwyo fel arfer.

holding(s) – rhaid i bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig sydd am ddefnyddio'r gair hwn fod yn bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig ddal yn unol â diffiniad adran 736 o Ddeddf Cwmnïau 1985.

patent neu **patentee** – dim ond lle nad yw'r enw'n groes i Ddeddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988 y cymeradwyir enw sy'n cynnwys y naill neu'r llall o'r geiriau hyn.

post office – rydym yn debygol o geisio cyngor ar geisiadau sy'n cynnwys y geiriau hyn.

register neu **registered** – byddwn yn trin pob cais am ddefnyddio'r geiriau hyn yn ôl ei rinweddau. At ei gilydd, fe geisiwn ni gyngor y corff llywodraethu priodol lle bo enwau sy'n cynnwys y geiriau hyn wedi eu cysylltu â chymhwyster proffesiynol. Ni chofrestrir mo'r enw os awgryma, yn ddigyfiawnhad, gysylltiad â Llywodraeth Ei Mawrhydi neu awdurdod lleol. Os oes cysylltiad gwirioneddol o'r fath, fe ellir caniatáu'r enw lle bo'r corff priodol yn cefnogi'r cais.

Sheffield – os dymunwch chi ddefnyddio enw sy'n cynnwys y gair 'Sheffield', bydd angen inni gadarnhau manylion lleoliad y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig a'i gweithgareddau busnes. Byddwn hefyd yn ymgynghori â Chwmni'r Cyllellwyr yn Hallamshire.

trade union – gwrthodir enwau'n cynnwys yr ymadrodd hon fel arfer, oni chydymffurfiant â'r ddeddfwriaeth ynglŷn ag undebau llafur.

Pennod 5
Cyfarwyddiadau i newid enw partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig

1. Beth yw 'cyfarwyddyd'?

Mae cyfarwyddyd i newid enw partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig yn orchymyn cyfreithiol i bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig gwblhau Ffurflen LLP3 i fabwysiadu enw newydd a chofrestru'r newid yn Nhŷ'r Cwmnïau o fewn cyfnod penodol. Gellir rhoi cyfarwyddyd, er enghraifft, yn sgil cyflwyno gwrthwynebiad gan rywun sydd â buddiant oherwydd bod un enw yn 'rhy debyg' i un arall. Mae'r bennod hon yn egluro sut i gyflwyno gwrthwynebiad, beth a ystyrir wrth benderfynu a yw un enw'n rhy debyg i un arall ac, yn gyffredinol, pryd y gellir rhoi cyfarwyddyd.

2. Pwy all gyfarwyddo partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig i newid ei henw?

Mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol bwerau statudol i gyfarwyddo partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig i newid ei henw o dan amgylchiadau arbennig.

3. Sut alla i wrthwynebu enw?

Os hoffech chi wrthwynebu enw, er enghraifft am y gallai ei debygrwydd i enw'ch partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig chi arwain at ddryswch rhwng partneriaethau atebolrwydd cyfyngedig, yna rhaid ichi ysgrifennu at:

Ar gyfer partneriaethau atebolrwydd cyfyngedig wedi eu corffori yng Nghymru a Lloegr:	**Ar gyfer partneriaethau atebolrwydd cyfyngedig wedi eu corffori yn yr Alban:**
Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Menter a Diwygio Rheoleiddio Adran Cwmnïau Newydd Tŷ'r Cwmnïau Ffordd y Goron Caerdydd CF14 3UZ	The Secretary of State for Business, Enterprise and Regulatory Reform New Companies Section Companies House 4th Floor Edinburgh Quay 2 139 Fountainbridge Edinburgh EH3 9FF

4. Beth yw ystyr 'rhy debyg'?

Yn gyntaf oll, bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn edrych ar y ddau enw. Dim ond os ymddengys bod y ddau enw'n gyffelyb y bydd yn ystyried a ydynt yn 'rhy debyg' – hynny yw, a oes perygl dryswch rhwng partneriaethau atebolrwydd cyfyngedig.

Os oes gwahaniaeth o un neu ragor o eiriau rhwng yr enwau, gall hyn awgrymu nad ydyn nhw'n 'rhy debyg', gan ddibynnu, er enghraifft, ar y gair/geiriau a hyd yr enwau dan sylw.

Os mewn mân bethau yn unig y mae'r enwau'n gwahaniaethu, gall hyn awgrymu bod yr enwau yn 'rhy debyg' ac mewn amgylchiadau felly fe ellir rhoi cyfarwyddyd. Enghreifftiau posibl yw:

- Lle nad yw ond llythyren neu ddwy yn cyfrif am y gwahaniaeth, yn enwedig pan fo'r rheiny'n cyfleu lluosog gair a gynhwysir mewn enw ar y gofrestr a fyddai fel arall yn hollol yr un fath.

- Lle bo geiriau byr yn gwahaniaethu rhwng yr enwau, yn enwedig geiriau o gymeriad generig megis 'GB' neu 'UK' neu '.com'.

- Lle bo geiriau ychydig yn hwy, efallai, yn gwahaniaethu rhwng yr enwau a bod ganddynt elfennau sylweddol a/neu arbennig iawn yn gyffredin.

- Lle gwahaniaethant o ran y ffordd y defnyddir symbolau yn unig.

Nodyn: dim ond enw corfforaethol llawn y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig y gellir ei ystyried.

5. Beth os yw'r enw'n awgrymu cysylltiad â phartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig sydd eisoes ar y mynegai?

Ni fydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn ystyried unrhyw agwedd ar 'berthynas ymhlyg' – hynny yw, a ellid tybied bod y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig yn aelod o bartneriaeth neu grŵp o bartneriaethau atebolrwydd cyfyngedig arbennig, neu'n gysylltiedig. Nid ystyria ychwaith y ffordd y defnyddir enwau masnach neu enwau busnes, logos, perchnogaeth nodau masach neu wasanaeth cofrestredig, hawlfreintiau, patentau ac ati, nac unrhyw hawliau perchnogol eraill sydd ynghlwm wrth enwau neu rannau o enwau.

6. Sut y delir â gwrthwynebiadau?

Rhai dewisol yw pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol ac ystyrir pob achos yn ôl ei rinweddau. Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol fel arfer yn rhoi gwybod i'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig yr arfaetha gyfarwyddo ei bod yn newid ei henw, fel bod modd i'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig honno gyflwyno unrhyw dystiolaeth a wêl yn briodol i gyfiawnhau cadw'r enw presennol. Wrth ddod i benderfyniad, fe ystyrir unrhyw wybodaeth berthnasol a ddarperir i ategu neu wrthod yr achos sy'n honni dryswch rhwng partneriaethau atebolrwydd cyfyngedig fel partneriaethau atebolrwydd cyfyngedig felly (ond nid rhwng partneriaethau atebolrwydd cyfyngedig fel y cânt eu cynrychioli gan eu teitl masnachu, eu dull gweithredu neu eu gweithgarwch).

7. Pryd y gellir rhoi cyfarwyddyd?

Gellir cyfarwyddo partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig i newid ei henw:

- o fewn 12 mis i ddyddiad ei chofrestru os yw'r enw yr un fath ag enw sy'n ymddangos (neu a ddylai fod wedi ymddangos) ar y mynegai adeg y cofrestru, neu sydd, ym marn yr Ysgrifennydd Gwladol, yn 'rhy debyg' i enw felly.

- o fewn pum mlynedd i'w chofrestru lle bo gan yr Ysgrifennydd Gwladol sail i gredu ei bod wedi darparu gwybodaeth gamarweiniol at ddibenion y cofrestru, neu wedi derbyn, at ddibenion y cofrestru, ymgymeriadau neu wedi rhoi sicrhad na wireddwyd mohonynt.

Unrhyw bryd os yw'r enw'n rhoi argraff mor gamarweiniol o natur gweithgareddau'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig fel ei fod yn debyg o niweidio lles y cyhoedd. Rhai cydymffurfio â'r cyfarwyddyd hwn o fewn chwe wythnos, oni wneir cais i'r Llys am iddo gael ei ddirymu. (Adran 32, Deddf Cwmnïau 1985).

8. A ellir gwrthod enw 'rhy debyg' cyn cofrestru'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig?

Na ellir. Er bod yr enw a arfaethir i bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig yn cael ei wrthod os yw 'yr un fath' ag enw partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig sy'n bodoli eisoes, nid oes pŵer i wrthod enw ar y sail ei fod yn 'rhy debyg' i enw partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig arall.

Mae er eich lles eich hun ichi sicrhau bod yr enw a ddewiswch i'ch partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig yn ddigon gwahanol i unrhyw enw arall ar y gofrestr. Bydd hynny'n lleihau perygl dryswch, ynghyd â'r anawsterau posibl canlynol:

- gwrthwynebiadau i enw'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig;

- dryswch rhyngoch chi â phartneriaethau atebolrwydd cyfyngedig eraill sydd â hanes masnachu gwael;

- gweithrediadau 'ymhonni' o dan y gyfraith sifil.

Pennod 6
Cyhoeddi enw partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig, a'r manylion sydd i'w dangos ar ei deunydd ysgrifennu

Mae'n rhaid i'ch partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig nodi ei henw (fel yr ymddengys yn ei Dogfen Gorffori, Ffurflen LLP2) mewn mannau arbennig ac ar ddeunydd ysgrifennu'r busnes. Rhaid i'ch partneriaeth atebolrwydd

cyfyngedig hefyd roi gwybodaeth arbennig ar ei holl lythyrau busnes a ffurflenni archebu.

1. Ble mae'n rhaid dangos enw'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig?

Rhaid i bob partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig beintio neu osod ei henw y tu allan i bob swyddfa neu leoliad lle dilynir busnes – hyd yn oed os cartref un o'r aelodau fydd hynny. Rhaid i'r enw fod wedi ei beintio neu ei osod yn gyson a rhaid iddo fod yn amlwg ac yn ddarllenadwy.

2. Ar ba ddogfennau mae'n rhaid dangos enw'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig?

O 1 Ionawr 2007 ymlaen, p'un i ar gopi caled, drwy ddull electronig neu ar unrhyw ddiwyg arall –

Rhaid i'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig nodi ei henw, mewn ysgrifen ddarllenadwy, ar y canlynol:

- holl lythyrau busnes a ffurflenni archebu'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig ;
- ei holl hysbysiadau a chyhoeddiadau swyddogol eraill;
- pob bil cyfnewid, addaweb, arnodiad, siec ac archeb arian neu archeb nwyddau yr honnir ei bod wedi ei llofnodi gan neu ar ran y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig ;
- ei holl ddatganiadau o eitemau taladwy, anfonebau, derbynebau a llythyrau credyd;
- ar ei holl wefannau.

3. Oes rhaid i'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig ddangos unrhyw fanylion eraill?

Oes. Ar ei holl lythyrau busnes, ffurflenni archebu (p'un ai ar gopi caled, drwy ddull electronig neu ar unrhyw ddiwyg arall) neu ar bob un o'i gwefannau, mae'n rhaid i'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig ddangos mewn ysgrifen ddarllenadwy:

- Leoliad ei gofrestru a'i rif cofrestru.

Rhaid i'r lleoliad cofrestru fod yn un o'r canlynol, fel y bo'n briodol:

Ar gyfer partneriaethau atebolrwydd cyfyngedig wedi eu cofrestru yng Nghymru a Lloegr:	Ar gyfer partneriaethau atebolrwydd cyfyngedig wedi eu cofrestru yn yr Alban:
Cofrestrwyd yng Nghaerdydd	Cofrestrwyd yn yr Alban
Cofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr	Cofrestrwyd yng Nghaeredin
Cofrestrwyd yng Nghymru	
Cofrestrwyd yn Lloegr	
Cofrestrwyd yn Llundain	

- Y ffaith mai partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig ydyw.
- Cyfeiriad ei swyddfa gofrestredig. Os bydd llythyr busnes, ffurflen archebu neu unrhyw un o wefannau'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig yn sôn am fwy nag un cyfeiriad, argymhellir eich bod yn nodi p'un o'r cyfeiriadau yw cyfeiriad y swyddfa gofrestredig.

4. Beth os yw'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig yn cael ei dirwyn i ben?

Os yw'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig yn cael ei dirwyn i ben, mae'n rhaid i bob anfoneb, archeb nwyddau, llythyr busnes neu ffurflen archebu (p'un ai ar gopi caled, drwy ddull electronig neu ar unrhyw ddiwyg arall) a'i holl wefannau gynnwys datganiad bod y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig yn cael ei dirwyn i ben.

Pennod 7
Y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig newydd – edrych ymlaen

1. Pa wybodaeth sydd angen ar Dŷ'r Cwmnïau?

Mae gan aelodau dynodedig gyfrifoldeb personol am drefnu i wybodaeth am fframwaith, rheolaeth a gweithgareddau eu partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig fod ar gael i aelodau'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig ei hun ac i'r cyhoedd yn gyffredinol. Bydd hyn yn cynnwys cyfrifon.

2. Pa gyfnod y dylai'r cyfrifon ei fodloni?

Rhaid i gyfrifon cynta'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig ddechrau o'r dyddiad corffori. Rhaid i'r flwyddyn ariannol gyntaf ddod i ben ar y 'dyddiad cyfeirnod cyfrifeg' neu ar ddyddiad hyd at saith diwrnod y naill ochr neu'r llall

i'r dyddiad hwn (gweler cwestiwn 3). Bydd cyfrifon olynol yn dechrau ar y diwrnod ar ôl dyddiad diwedd-blwyddyn y cyfrifon blaenorol. Deuant i ben ar y 'dyddiad cyfeirnod cyfrifeg' nesaf neu ar ddyddiad hyd at 7 diwrnod y naill ochr neu'r llall.

3. Sut pennir y dyddiad cyfeirnod cyfrifeg?

Y dyddiad cyfeirnod cyfrifeg yw dydd ola'r flwyddyn a fodlonir gan y cyfrifon. Bydd y dyddiad hwn yn dibynnu ar y dyddiad corffori, gan ei fod yn cyfateb i ddydd ola'r mis sy'n cynnwys y dyddiad corffori. Er enghraifft, os corfforir eich partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig ar 2 Gorffennaf eleni, y dyddiad cyfeirnod cyfrifeg fydd 31 Gorffennaf, a bydd rhaid i'w blwyddyn ariannol gyntaf ddod i ben ar 31 Gorffennaf y flwyddyn nesaf (neu o fewn 7 diwrnod i'r dyddiad hwnnw).

4. Oes modd newid y dyddiad cyfeirnod cyfrifeg?

Oes. Gallwch ei newid drwy anfon Ffurflen LLP225 at y Cofrestrydd. Rhaid ichi wneud hyn o fewn y cyfnod cyfrifeg yr effeithir arno gan y newid neu yn ystod y cyfnod a ganiateir ar gyfer cyflwyno'r cyfrifon cysylltiedig inni. Am ragor o wybodaeth, gweler ein canllaw 'Partneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig – Gweinyddu a Rheoli'.

5. Faint o amser sydd gen i i gyflwyno cyfrifon?

Mae'n rhaid cyflwyno cyfrifon cyntaf partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig:

- o fewn 9 mis i ddiwedd y cyfnod cyfeirnod cyfrifeg; neu
- os yw'r cyfnod cyfeirnod cyfrifeg yn hwy na 12 mis, o fewn 21 mis i'r dyddiad corffori, neu dri mis i ddiwedd y cyfnod cyfeirnod cyfrifeg, p'un bynnag sydd hwyaf.

6. Beth arall sy'n rhaid imi ei ddweud wrth Dŷ'r Cwmnïau?

Dyma rai o'r pethau pwysig y mae'n rhaid ichi ddweud wrthym amdanynt – gan ddefnyddio, yn y mwyafrif o enghreifftiau, ffurflen arbennig a ddarparwn, ac o fewn y cyfyngiadau amser a nodir.

- Newid aelodau ac aelodau dynodedig, o fewn 14 diwrnod. Ar gyfer penodiadau defnyddiwch Ffurflen LLP288a, ar gyfer ymddiswyddiadau defnyddiwch Ffurflen LLP288b, ac ar gyfer newid teitl defnyddiwch Ffurflen LLP8.
- Newid manylion aelodau ac aelodau dynodedig, o fewn 28 diwrnod, gan ddefnyddio Ffurflen LLP288c.
- Lleoliad cofrestr y dyledebwyr. Defnyddiwch Ffurflen LLP190

- Manylion unrhyw forgais neu arwystl a greir gan y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig, o fewn 21 diwrnod. Gweler ein canllaw 'Partneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig – Gweinyddu a Rheoli'.

- Newid swyddfa gofrestredig, o fewn 14 diwrnod. Defnyddiwch Ffurflen LLP287. Dim ond wrth inni gofrestru'r ffurflen y daw'r newid i rym cyfreithiol.

7. Beth am ffurflenni blynyddol?

Rhaid i bob partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig gyflwyno ffurflen flynyddol i Dŷ'r Cwmnïau o leiaf unwaith bob 12 mis. Bydd ganddi 28 diwrnod o ddiwrnod ola'r cyfnod a fodlonir gan y ffurflen i wneud hyn.

8. Beth fydd Tŷ'r Cwmnïau yn ei wneud â'r wybodaeth a anfonir gan fy mhartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig?

Rhaid inni drefnu i'r wybodaeth fod ar gael i unrhyw un sydd am ei gweld. Felly, fe gaiff yr wybodaeth a gyflwynwch ei hychwanegu at eich cofnod a bydd ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd.

9. Beth sy'n digwydd os nad anfona i'r wybodaeth i Dŷ'r Cwmnïau mewn pryd?

Os cyflwynir eich cyfrifon ar ôl yr amser priodol, ceir cosb sifil awtomatig am ffeilio hwyr. Mae rhagor o wybodaeth am gosbau ffeilio hwyr i'w chael yn ein llyfryn 'Partneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig – Gweinyddu a Rheoli'.

Yn ychwanegol, gellir erlyn aelodau dynodedig am beidio â ffeilio dogfennau arbennig. Os collfarnedig, bydd ganddynt gofnod troseddol a byddent yn agored i ddirwy. Mewn rhai enghreifftiau, gellid hefyd eu gwahardd rhag dal swydd aelod dynodedig neu gyfarwyddwr cwmni yn cymryd rhan yn rheolaeth unrhyw bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig neu gwmni am hyd at bum mlynedd.

10. Beth os na fydd y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig yn llwyddo neu na fydd arna i ei hangen mwyach?

Gall partneriaethau atebolrwydd cyfyngedig sydd heb fasnachu na dilyn busnes mewn ffordd arall ers o leiaf tri mis wneud cais i'r Cofrestrydd am gael eu dileu o'r gofrestr. Am wybodaeth ynghylch hyn, a gweithrediadau ansolfedd anffurfiol, gweler ein cyhoeddiadau 'Partneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig – Dirwyn i Ben', neu i bartneriaethau atebolrwydd cyfyngedig sydd wedi eu cofrestru yn yr Alban, 'Limited Liability Partnerships – Winding Up (Scotland)'.

Pennod 8
Gwybodaeth bellach

1. Ble alla i gael cymorth?

Bydd ein staff yng Nghaerdydd a Chaeredin yn gallu'ch cynghori ynghylch materion yn gyffredinol, ond wrth ddechrau partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig mae'n bwysig gwneud pethau'n iawn. Fel na fyddwch chi'n gwneud camgymeriadau a allai droi'n gostus, gall fod yn ddoeth ymgynghori â chyfreithiwr, asiant ffurfio, ysgrifennydd siartredig neu gyfrifydd fel sy'n briodol. Fe welir y cyfeiriadau yn llyfrau ffôn ar gyfer busnesau fel arfer.

Am ragor o wybodaeth ynghylch enwau sydd angen cymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Gwladol, dylech chi ysgrifennu at:

Ar gyfer partneriaethau atebolrwydd cyfyngedig wedi eu corffori yng Nghymru a Lloegr:	**Ar gyfer partneriaethau atebolrwydd cyfyngedig wedi eu corffori yn yr Alban:**
Tîm Partneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig Tŷ'r Cwmnïau Ffordd y Goron Caerdydd CF14 3UZ DX33050 Caerdydd 1	The Registrar of Companies Companies House 4th Floor Edinburgh Quay 2 139 Fountainbridge Edinburgh EH3 9FF DX ED235 Edinburgh 1 neu LP – 4 Edinburgh 2

Gallwch chi hefyd gael cyngor ynghylch defnyddio geiriau ac ymadroddion arbennig gan y cyrff perthnasol y gwelir eu henwau a'u cyfeiriadau yn yr Atodiadau.

2. Sut dylwn i anfon gwybodaeth at y Cofrestrydd?

Gallwch chi gyflwyno dogfennau i'r Cofrestrydd â llaw (yn bersonol neu drwy negesydd), gan gynnwys y tu allan i oriau swyddfa, dros wyliau banc a thros y penwythnos i Gaerdydd, Llundain a Chaeredin - gweler cyfeiriadau ar y tudalen olaf.

Gallwch chi hefyd gyflwyno dogfennau drwy'r post, drwy'r gwasanaeth Cyfnewid Dogfennau (DX) neu drwy'r Post Cyfreithiol (LP) yn yr Alban. Os anfonwch chi ddogfennau drwy'r post, byddwch cystal â'u cyfeirio at:

Ar gyfer partneriaethau atebolrwydd cyfyngedig wedi eu corffori yng Nghymru a Lloegr:
Y Cofrestrydd Cwmnïau
Tŷ'r Cwmnïau
Ffordd y Goron
Caerdydd CF14 3UZ

DX33050 Caerdydd 1

Ar gyfer partneriaethau atebolrwydd cyfyngedig wedi eu corffori yn yr Alban:
The Registrar of Companies
Companies House
4th Floor
Edinburgh Quay 2
139 Fountainbridge
Edinburgh EH3 9FF

DX ED235 Edinburgh 1
Neu
LP – 4 Edinburgh 2

Os ydych yn anfon dogfennau drwy'r post, drwy negesydd neu drwy Gyfnewid Dogfennau (DX) a'ch bod yn dymuno cael derbynneb, bydd Tŷ'r Cwmnïau yn darparu cydnabyddiaeth os amgaewch gopi o'ch llythyr eglurhaol gydag amlen stampiedig ac arni eich cyfeiriad dychwelyd. Bydd y côd bar a roddwn ar eich llythyr yn cyfleu'r dyddiad dod i law ac fe ddychwelwn y copi yn yr amlen a ddarparwch.

Sylwer: Nid yw cydnabyddiaeth dod i law yn golygu bod dogfen wedi ei derbyn i'w chofrestru yn Nhŷ'r Cwmnïau.

Sylwer: Nid yw Tŷ'r Cwmnïau yn derbyn cyfrifon na dogfennau statudol eraill dros beiriant ffacs.

3. Ble galla i gael ffurflenni a llyfrynnau canllaw?

Mae hwn yn un o gyfres o gyhoeddiadau gan Dŷ'r Cwmnïau sy'n rhoi canllaw syml i'r Ddeddf Cwmnïau.

Mae ffurflenni statudol a chanllaw ar gael, yn rhad ac am ddim, gan Dŷ'r Cwmnïau. Y ffordd gyflymaf i'w cael yw drwy eu dadlwytho o'r wefan. Neu fe allwch chi ffonio Tŷ'r Cwmnïau ar 0303 1234 500.

Gellir hefyd gael ffurflenni gan ddogfenwyr cyfraith cwmnïau, cyfrifwyr, cyfreithwyr ac asiantiaid ffurfio cwmnïau – cyfeiriadau mewn llyfrau ffôn ar gyfer busnesau.

Atodiad A

Bydd arnoch chi angen cymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Gwladol cyn defnyddio unrhyw rai o'r geiriau neu'r ymadroddion canlynol (neu eu ffurfiau lluosog neu feddiannol) yn yr enw a ddewiswch i'ch partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig.

(a) Geiriau sy'n awgrymu blaenoriaeth genedlaethol neu ryngwladol:

British
England
English
European
Great Britain
International
Ireland
Irish
National
Scotland
Scottish
United Kingdom
Wales
Welsh

(b) Geiriau sy'n awgrymu blaenoriaeth fusnes neu statws cynrychioliadol neu awdurdodol:

Association
Authority
Board
Council
Federation
Institute
Institution
Society

(c) Geiriau sy'n awgrymu amcanion neu swyddogaethau penodol:

Assurance
Assurer
Benevolent
Charter
Chartered
Chemist
Chemistry
Co-operative
Foundation
Friendly society
Fund
Group

Holding
Industrial & provident society
Insurance
Insurer
Patent
Patentee
Post office
Reassurance
Re-assurer
Register
Registered
Re-insurance
Re-insurer
Sheffield
Stock exchange
Trade union
Trust

Atodiad B

Bydd angen cymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Gwladol i eiriau neu ymadroddion yn y rhestr ganlynol. Os dymunwch ddefnyddio unrhyw un ohonynt yn enw'ch partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig, bydd eisiau ichi ysgrifennu'n gyntaf i'r corff perthnasol i ofyn a oes ganddynt unrhyw wrthwynebiad i'r defnydd. Wrth wneud cais am gymeradwyaeth i ddefnyddio'r enw, dylech chi ddweud wrth Dŷ'r Cwmnïau eich bod wedi ysgrifennu i'r corff perthnasol ac amgáu copi o'r ateb a gawsoch.

Gair neu ymadrodd	**Corff perthnasol i bartneriaethau atebolrwydd cyfyngedig sy'n bwriadu bod â'u swyddfa gofrestredig yng Nghymru neu Loegr**	**Corff perthnasol i bartneriaethau atebolrwydd cyfyngedig sy'n bwriadu bod â'u swyddfa gofrestredig yn yr Alban**
Charity, Charitable	Head of Status Charity Commission Woodfield House Tangier Taunton TA1 4BL	*I gael cydnabyddiaeth fel elusen Albanaidd:* Inland Revenue FICO (Scotland) Trinity Park House South Trinity Road Edinburgh EH5 3SD
Contact Lens	The Registrar General Optical Council 41 Harley Street London W1N 2DJ	Fel ar gyfer Cymru a Lloegr
Dental, Dentistry	The Registrar General Dental Council 37 Wimpole Street London W1M 8DQ	Fel ar gyfer Cymru a Lloegr
District Nurse, Health Visitor, Midwife, Midwifery, Nurse, Nursing	The Registrar & Chief Executive United Kingdom Central Council for Nursing, Midwifery and Health Visiting 23 Portland Place London W1N 3AF	Fel ar gyfer Cymru a Lloegr

Health Centre	Mike Pattrick SOL COMMERCIAL Office of the Solicitor Department of Health Room 518 New Court 48 Carey Street London WC2A 2LS	Fel ar gyfer Cymru a Lloegr
Health Service	Ian Williams Head of Brand Management Department of Health Skipton House 80 London Road London SE1 6LH	Fel ar gyfer Cymru a Lloegr
Police	Pauline Laybourne Briefing and Honours Team CRCSG Change and Support Unit 3rd Floor A Fry Building 2 Marsham Street London SW1P 4DF	The Scottish Ministers Police Division St Andrew's House Regent Road Edinburgh EH1 3DG
Polytechnic	Department for Education and Science FHE 1B Sanctuary Buildings Great Smith Street Westminster London SW1P 3BT	Fel ar gyfer Cymru a Lloegr
Pregnancy, Termination, Abortion	Department of Health Area 423 Wellington House 133-155 Waterloo Road London SE1 8UG	Fel ar gyfer Cymru a Lloegr
Royal, Royale, Royalty, King, Queen, Prince, Princess, Windsor, Duke,	*Os seiliedig yng Nghymru:* Cynulliad Cenedlaethol Cymru Adeiladau'r Goron Parc Cathays Caerdydd CF10 3NQ	Douglas Boyd Protocol Unit St Andrew's House Regent Road Edinburgh

His/Her Majesty	*Os seiliedig yn Lloegr:* Linda Henshaw Ministry of Justice Constitutional Settlement Division newid cyfeiriad yn effeithiol o 20/10/2008 7C-018 (Post Point 7.42) 102 Petty France London SW1H 9AJ	EH1 3DG
Special School	Clinton Roche Department of Education and Skills Caxton House 6-12 Tothill Street London SW1H 9NA	Fel ar gyfer Cymru a Lloegr
University	Privy Council Office 2 Carlton Gardens London SW1Y 5AA	Fel ar gyfer Cymru a Lloegr

Atodiad C

Mae geiriau neu ymadroddion arbennig wedi eu rhychwantu gan ddeddfwriaeth arall a gallai eu defnyddio yn enw partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig fod yn dramgwydd troseddol. Rhestrir y rhain isod. Os dymunwch ddefnyddio unrhyw un o'r enwau neu'r ymadroddion hyn yn enw'ch partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig, yna dylech chi gysylltu â'r corff rheoleiddio perthnasol neu geisio cyngor gennym ni cyn bwrw ymlaen. Gallwn ninnau geisio cyngor annibynnol y corff perthnasol.

Gair neu ymadrodd	**Deddfwriaeth berthnasol**	**Corff perthnasol**
Architect	Section 20 Architects Registration Act 1997	The Registrar Architects Registration Board Regulation Department 8 Weymouth Street London WlW 5BU
Credit Union	Credit Union Act 1979	The Public Records Section Financial Services Authority 25 The North Colonnade Canary Wharf London E14 5HS
Olympiad, Olympiads, Olympian, Olympians, Olympic, Olympics *neu gyfieithiad o'r rhain*	Olympic Symbol etc. (Protection) Act 1995* **Hefyd yn diogelu'r symbol Olympaidd o bum cylch plethedig a'r arwyddair 'Citius Altius Fortius'*	British Olympic Association 1 Wandsworth Plain London SW18 1EH
Veterinary Surgeon, Veterinary, Vet	Sections 19/20 Veterinary Surgeons Act 1966	The Registrar Royal College of Veterinary Surgeons 62-64 Horseferry Rd London SW1P 2AF

Dentist, Dental Surgeon, Dental Practitioner	Dental Act 1984	The Registrar General Dental Council 37 Wimpole Street London W1M 8DQ
Druggist, Pharmaceutical, Pharmaceutist, Pharmacist, Pharmacy	Section 78 Medicines Act 1968	The Director of Legal Services The Royal Pharmaceutical Society of Great Britain 1 Lambeth High Street London SE1 7JN *i bartneriaethau wedi eu cofrestru yn yr Alban* The Pharmaceutical Society 36 York Place Edinburgh EH1 3HU
Optician, Ophthalmic Optician, Dispensing Optician, Enrolled Optician, Registered Optician, Optometrist	Opticians Act 1989	The Registrar General Optical Council 41 Harley Street London W1N 2DJ
Red Cross, Geneva Cross, Red Crescent, Red Lion and Sun	Geneva Convention Act 1957	Ceisier cyngor Tŷ'r Cwmnïau
Anzac	Section 1 Anzac Act 1916	Ceisier cyngor Tŷ'r Cwmnïau
Chiropodist, Dietician, Medical Laboratory, Technician, Occupational Therapist, Orthoptist, Physiotherapist, Radiographer, Remedial Gymnast	Professions Supplementary to Medicine Act 1960 os yw'r geiriau Registered neu State Registered i fod ar y dechrau	Mrs Joan Arnott Department of Health HRD HRB RM 2N35A Quarry House Quarry Hill Leeds LS2 7JE
Institute of Laryngology, Institute of Otology, Institute of Urology, Institute of Orthopaedics	University College of London Act 1988	*Ceisier cyngor:* University College London Gower Street London WC1E 6BT

Swyddfa Eiddo Deallusol y D.G., Patent Agent	Copyright, Designs and Patents Act 1988	IPPD (Intellectual Property Policy Directorate) Ystafell 3B38 Concept House Y Swyddfa Eiddo Deallusol Cardiff Road Casnewydd NP10 8QQ
Solicitor (Scotland)	S.31 Solicitors (Scotland) Act 1980	The Law Society of Scotland 26 Drumsheugh Gardens Edinburgh EH3 7YR
Building Society	Building Society Act 1986	*Ceisier cyngor:* Building Societies Commission Victoria House 30-40 Kingsway London WC2B 6ES
Siambr Fusnes/Siambrau Busnes Siambr Fasnach/Siambrau Masnach Siambr(au) Masnach a Diwydiant Siambr(au) Masnach, Hyfforddiant a Menter Siambr Fenter/Siambrau Menter Siambr Ddiwydiant/Siambrau Diwydiant Siambr(au) Hyfforddiant Siambr(au) Hyfforddiant a Menter *neu fersiynau Saesneg y geiriau hyn*	Company and Business Names (Chamber of Commerce etc) Act 1999	Mae cyngor i'w gael gan Dŷ'r Cwmnïau

The Victoria University of Manchester, University of Manchester Institute of Science and Technology, UMIST, Manchester University	Gwaherddir i bawb ond Prifysgol Manceinion gan 'The Univeristy of Manchester Act 2004'.	
Coleg Meddygaeth Prifysgol Cymru, Ysgol Feddygaeth Genedlaethol Cymru	Gwaherddir i bawb ond Prifysgol Cymru gan 'The Univeristy of Wales, Cardiff Act 2004'.	

sut i gysylltu â ni

Canolfan Cysylltu: 0303 123 4500*
Mini-com: 029 2038 1245
enquiries@companieshouse.gov.uk
www.companieshouse.gov.uk

*At ddibenion hyfforddiant ac ansawdd, gall eich galwad gael ei monitro

Caerdydd:
Tŷ'r Cwmnïau
Ffordd y Goron, Caerdydd CF14 3UZ
Ffacs: 029 2038 0900

Caeredin:
Companies House
4th Floor
Edinburgh Quay 2
139 Fountainbridge
Edinburgh EH3 9FF
Ffacs: 0131 535 5820

Llundain:
Companies House
21 Bloomsbury Street, London WC1B 3XD
Ffacs: 029 2038 0900